

12 Cwestiwn

y byddwch efallai am eu gofyn i chi'ch hun
yn ystod Ymgyrch Etholiadol



Mantra craidd Cristnogion yw "Gwirionedd a Chyfiawnder". Nid ydym yn honni monopoli ar realiti'r pethau hyn, ac maen nhw'n elfennau y mae pobl o nifer o wahanol dueddiadau crefyddol yn eu hystyried yn bwysig. Yn syml, rydym am i bethau fod yn deg ac yn onest. Felly, wrth i chi ystyried gwahanol hawliadau a gwrth-honiadau'r ymgyrch etholiadol, rydym yn cynnig 12 cwestiwn sylfaenol a allai eich helpu i weld beth sy'n deg a beth sy'n ddilys.

**A yw
hynny'n
wir go
iawn?**

Un o'r pethau sy'n hoff iawn gan wleidyddion yw penawdau a sylwadau bachog. Gall ymadrodd cofiadwy, a allai ddod ynghlwm yn barhaol bron wrth bolisi, parti neu syniad, gael effaith sylweddol - naill ai er mwyn cymeradwyo dro ar ôl tro, neu i amharchu a chondemnio. Pan fydd ymadroddion felly'n dal ar ein meddyliau, fe allan nhw swnio'n wir, hyd yn oed heb lawer o dystiolaeth i'w cefnogi. Os yw ymadrodd neu ddisgrifiad yn eich taro, holwch a oes unrhyw sylwedd y tu ôl iddo. Os byddwch yn clywed rhywbeth negyddol am unrhyw barti, polisi neu unigolyn - holwch eich hun, "A yw hynny'n wir, neu ai dim ond disgrifiad rhywun arall ydyw?" Bydd polisiau'n cael eu cyfiawnhau'n aml drwy stigmatiddio grwpiau a phobl neilltuol, nid dim ond gwrthwynebwyr gwleidyddol. Boed hynny'n cyfeirio at fusnesau mawr, rhai sy'n hawlio budd-daliadau, neu bobl eraill - peidiwch â dim ond gwrandao ar y polisi, gwrandawch ar y rhesymau a gynigir i'w gyfiawnhau, a holwch eich hun "A yw hynny'n wir go iawn?"

**Beth mae
hynny'n ei
olygu mewn
gwirionedd?**

Cofiwch am slogan Donald Trump, "*Make America great again!*" Mae'n sicr yn dal dychymyg, ond mae'r sylwebwyr gwybodus yn nodi ar unwaith y gall y gair "*great*" olygu sawl peth. Nid yn unig hynny, ond fe allai diffiniad un person o "ardderchog" fod yn golygu rhywbeth fel "ofnadwy" i rywun arall. Felly, pan fydd gwleidydd neu sylwebydd ar y cyfryngau'n defnyddio gair sy'n eich taro - oedwch ac ystyriwch i ba raddau y maen nhw'n defnyddio gair cyffredinol a allai olygu deg o wahanol bethau i ddeg o wahanol bobl. Bydd pawb yn ddigon bodlon ar ddiwrnod y pleidleisio, yn siŵr, ond efallai y byddwch yn deall wedyn y gallai eu diffiniad nhw o "cryf" "gwyh" "effeithiol" "priodol" ac ati fod yn wahanol iawn i'ch diffiniad chi.

**Sut y bydd
hynny'n
digwydd?**

Wedi'r cyfan, etholiad sydd gennym. Mae hyn yn golygu bod gan ymgeiswyr un nod syml. Ar 8 Mehefin maen nhw eisïau i chi eu hoffi nhw, neu'r parti y maen nhw'n ei gynrychioli, ddigon i chi eu dewis nhw yn hytrach na'u gwrthwynebwyr; neu o leiaf i beidio â hoffi'r dewisiadau eraill ddigon er mwyn i chi eu gweld nhw fel yr opsiwn gorau. Ac os oes ffordd i gael pobl i'ch hoffi chi, dweud y pethau y maen nhw am eu clywed, ac addo'r pethau y maen nhw eu heisïau yw'r ffordd honno. Fe all ymgyrchwyr wneud ymrwymïadau a allai fod yn ddyheadau gwirioneddol, ond sut maen nhw'n mynd i'w cyflawni? Oes ganddyn nhw strategaeth ymarferol i wneud iddyn nhw ddigwydd? Ydyn nhw'n gallu ategu'r hyn maen nhw'n ei honni gyda chynlluniau effeithiol? A yw eu cynlluniau'n ddilys? Pa mor debygol ydyn nhw o lwyddo?

**Oes angen
ei
ddatrys?**

Yn ystod unrhyw ymgyrch etholiadol, bydd ymgeiswyr yn gwneud amrywiaeth o addewidion ac ymrwymïadau. Bydd rhai yn cael eu rhagflaenu gyda chasgliad neu esboniad o sut mae eu gwrthwynebwyr wedi achosi, neu'n mynd i achosi, problem benodol. Efallai y byddan nhw'n addo ateb credadwy, ond pa wahaniaeth mewn gwirionedd y bydd yn ei wneud? Efallai eu bod yn bwriadu gwneud pethau a fyddai'n digwydd beth bynnag gyda, neu heb, unrhyw ymyrraeth wleidyddol. Bydd addewidion eraill yn hanfodol ac yn arwyddocaol, ac fe allai helpu i wahaniaethu beth yw beth drwy ofyn cwestiynau fel - "Beth yw'r broblem mae hyn yn mynd i'r afael â hi?" - "Pa mor arwyddocaol yw'r broblem a pha mor effeithiol fydd ei datrys?" - "Ydyn nhw'n fwriadol yn ceisio gwneud rhywbeth yn wahanol, neu dim ond yn addo beth sy'n debygol o ddigwydd beth bynnag?" - "Sut rydyn ni'n gwybod ei bod yn broblem wirioneddol, ac a fydd eu hateb nhw'n ei datrys?"

12 Cwestiwn

y byddwch efallai am eu gofyn i chi'ch hun
yn ystod Ymgyrch Etholiadol

Beth oedden nhw'n ei ddweud go iawn?

Mae sylw'r cyfryngau am wleidyddiaeth yn tueddu i ganolbwyntio ar ymadrodd neu sylw penodol y bydd gwleidydd yn ei wneud - yn enwedig os ydyn nhw'n dweud rhywbeth sy'n syfrdanol neu'n sy'n dal sylw pobl. Gall sylwebyddion hefyd ddal ar ddatganiad penodol oherwydd ei fod yn ymddangos fel petai'n atgyfnerthu naratif y gallai'r cyfryngau eisoes fod wedi penderfynu ei ddilyn. Ond mae'n bosib i sylwadau o'r fath gael eu golygu neu eu cyflwyno'n hollol allan o gyd-destun. Fe all fod yn ddim ond llithriad, neu gyfleu ystyr ddwbl yn anfwriadol. Wrth gwrs, mae adegau pan fydd "cam gwag" o'r fath yn datgelu gwir liwiau unigolyn, pan fyddan nhw'n ceisio cyflwyno rhywbeth llai gonest. Chi sydd i benderfynu - peidiwch â barnu trwy ymadrodd neu ddatganiad untro. Ac, wrth gwrs, mae ochr arall i hyn hefyd - yn union fel y gall y cyfryngau gyfleu bod rhywun yn dweud rhywbeth na fwriadwyd, gall gwleidyddion fod yn wych am gyflwyno rhywbeth amhoblogaidd mewn ymadrodd sydd wedi'i gynllunio i ymddangos yn eithaf diniwed. Y naill ffordd neu'r llall, daliwch i ofyn "Beth oedden nhw'n ei olygu mewn gwirionedd wrth ddweud hynny?"

Pwy sy'n dweud hyn wrthyf?

Bydd llawer o'r wybodaeth yr ydym yn ei hamsugno mewn ymgyrch etholiadol yn cael ei chyflwyno trwy gyfryngau fel teledu, radio, papurau newydd a gwefannau. Bydd rhywfaint gan y pleidiau eu hunain, ac yn ddisgwyliedig yn unochrog o'u plaid eu hunain. Ond peidiwch â chymryd yn ganiataol bod popeth arall felly'n niwtral. Bydd pob cyfrwng â'i agendâu a'u dulliau eu hunain, gyda rhai â thuedd agored i gyfeiriad gwleidyddol penodol, ond mae gan bob un eu blaenoriaethau eu hunain. Mae gormod yn digwydd mewn unrhyw ddiwrnod penodol i ni allu cael ein cyflwyno gydag unrhyw beth heblaw'r ychydig uchafbwyntiau y bydd golygydd yn rhywle wedi penderfynu arno. Os yw gwleidydd yn rhoi araith, bydd wedi para sawl munud, neu fwy - rydych chi'n debygol o gael dwy neu dair brawddeg ohoni. Bydd gan bob cyflwynydd hefyd ei farn eu hun am yr hyn sy'n iawn - gall hyd yn oed tôn eu llais gyfleu neges ymhlyg o anghrediniaeth, anghymeradwyaeth neu ganmoliaeth. Felly, pam mae cyfrwng penodol wedi rhoi gwybod i chi am hyn? Beth arall sydd wedi bod yn digwydd, a pham eu bod wedi dewis peidio â rhoi gwybod am hynny? A yw'r wybodaeth y maen nhw'n ei rhannu wedi'i bwriadu i brofi pwynt, neu'n cyfathrebu bwriad y siaradwr? Ydyn nhw'n cyfleu'r hyn a ddigwyddodd neu eu safbwynt nhw ar yr hyn ddigwyddodd? Beth sy'n wirionedd a beth sy'n farn?

Oedd y cwestiwn hwn yn un teg?

Un feirniadaeth gyson ar wleidyddion yw nad ydyn nhw'n ateb cwestiynau - gwelwn gyfweiliadau lle mae unigolyn yn gwneud popeth ond rhoi'r ateb unionrychol. Ond a fyddwn ni bob amser yn ystyried a oedd yn gwestiwn rhesymol yn y lle cyntaf? Mae llawer o'r materion y mae'r Senedd yn delio â nhw'n gymhleth ac mae angen pwyso a mesur anghenion a diddordebau sy'n gwrthdaro. Gall newyddiadurwyr gyflwyno pethau mewn goleuni gor-symbl a gofyn cwestiynau na fyddai unrhyw berson rhesymol yn gallu eu hateb yn syth gydag "ie" neu "na". Rhaid i ni hefyd gydnabod y gall llawer ddigwydd mewn tymor seneddol pum mlynedd, ac yn anorfod bydd rhai pethau anhysbys y bydd yn rhaid eu trin a'u trafod. Felly, ni fydd unrhyw wleidydd synhwyrol yn debygol o ystyried na diystyru pethau'n ddiamwys, heb adael rhywfaint o le i weithio yng ngoleuni amgylchiadau na ellir eu rhagweld. Gadewch i ni gofio ein bod yn ethol pobl go iawn i lywodraethu arnom mewn amser go iawn, nid yn ethol sefydliad i ddarparu agenda a ragosodwyd.

Ydw i'n cymharu tebyg â thebyg?

Mae Etholiadau Cyffredinol yn ymwneud â chreu poblogrwydd a delwedd gadarnhaol. Bydd gwleidydd, yn hytrach na bod yn gywir neu'n anghywir, eisiau ymddangos yn well na'i wrthwynebwyr. Felly, mae'n bosibl y byddwn yn clywed llawer o ymadroddion cymharol fel, "Fe fyddan nhw ... Fe fyddwn ni" Gall datganiadau fel hyn fod yn ddefnyddiol pan fyddwn yn penderfynu rhwng dau opsiwn neu fwy, ond ydyn ni bob amser yn cymharu tebyg â thebyg? "Maen nhw'n chwarae pêl-droed, ond rydyn ni'n gofalu am y rhai agored i niwed." Gall datganiad fel hwn ganu cloch, ond nid yw chwarae pêl-droed yn ddangosydd fod rhywun yn ofalgar tuag eraill. Bydd greddf ddynol yn tueddu i gofio'r ail elfen ac yn cymryd yn ganiataol ei fod yn cymhwyso'r gyntaf. Felly, pan fyddwch yn clywed datganiad cymharol, ystyriwch y ddwy elfen a holwch ydyn nhw'n perthyn i'w gilydd mewn gwirionedd.

12 Cwestiwn

y byddwch efallai am eu gofyn i chi'ch hun yn ystod Ymgyrch Etholiadol

A yw hyn yn cael ei gefnogi gan ffeithiau?

Nodwyd y gallai etholiadau gael eu dominyddu gan sloganau mawr a hawliadau eang. Gall y rhain helpu i roi ymdeimlad o bwrpas a blaenoriaethau cyffredinol unigolyn neu blaid, ond fe allan nhw hefyd fod yn hynod amwys ac yn fwriadol gamarweiniol. Felly, pan fydd unrhyw blaid yn gwneud honiad amdany'n nhw'u hunain neu eu gwrthwynebwy'r, holwch eich hun (neu nhw os cewch gyfle), "Ar ba sail rydych chi'n cyflwyno'ch honiad?" - "Beth yn union fyddwch chi'n ei wneud i wireddu hynny?" Meddyliwch am hyn yn enwedig pan fydd pleidiau yn gwneud addewidion i wario neu arbed arian. Y cwestiynau pwysicaf fyddai - "Ar beth rydych chi'n mynd i wario'r arian hwnnw?" - "Faint mewn gwirionedd fydd yn cael ei arbed?" Hefyd ceisiwch gadw ymdeimlad o "raddfa". Fe fyddai, "Byddwn yn gwario (neu'n arbed) 10 miliwn o bunnoedd ar ...", yn swnio'n arwyddocaol o'i gymharu â chyllideb cartref, ond beth fyddai'r arian hwnnw'n ei brynu wrth sôn am raglen genedlaethol? Yn fyr, wrth i'r negeseuon mawr a'r sloganau ddod yn amlwg, ceisiwch gael gwybod pa ffeithiau, ffigurau, bwriadau a chanlyniadau ymarferol sydd y tu ôl iddyn nhw mewn gwirionedd.

Os yw pobl eraill yn anghywir, ydyn nhw'n gywir?

O dan lywodraeth Lafur, bydd triniaeth ddeintyddol yn boenus a bydd y tywydd ym Mhrydain yn annibynadwy. A'r gwir syml yw na fydd y pethau hynny'n ddim gwahanol o dan y Ceidwadwyr nac unrhyw lywodraeth arall. A hyd yn oed yn y meysydd hynny y gall llywodraeth effeithio arnyn nhw - does dim llywodraeth yn berffaith, ac mae pob un yn gorfod gwneud dewisiadau anodd a phoenus. Felly, pan fydd cynrychiolwyr o un blaid yn cyhuddo eu gwrthwynebwy'r ynghylch cyfarwyddyd polisi neu fwriad arbennig o amhoblogaidd - oedwch a holwch, "Fyddwch chi mewn gwirionedd yn wahanol?" - "Beth ydych chi'n bwriadu ei wneud am y mater penodol hwn?" - "A yw hon yn broblem ganddyn nhw, neu a fyddai'n broblem beth bynnag?"

Os ydyn nhw'n gywir, a yw eraill yn anghywir?

Dyma ochr arall y cwestiwn uchod. Bydd pleidiau yn ceisio creu argraff arnom hefyd gyda'u bwriadau da a'u dyheadau cadarnhaol. Efallai y byddwn yn gweld y rhain yn ddeniadol, ond cyn i ni eu derbyn yn llwyr, mae angen i ni ofyn, "Beth mae eich gwrthwynebwy'r yn ei gynllunio - ydych chi, mewn gwirionedd, yn cynnig unrhyw beth gwell na nhw?"

Beth yw'r pethau sy'n bwysig i mi?

Yn olaf, cofiwch mai eich pleidlais chi yw hon ac nid pleidlais unrhyw un arall. Bydd ymgyrchwyr nid yn unig yn ceisio dadlau eu hachos ar faterion penodol, ond hefyd yn ceisio dylanwadu'n sylweddol ar y pethau sy'n cael eu trafod a'u portreadu fel pethau pwysig. Er y gallem weld rôl y cyfryngau yn heriol ac yn ail-gydbwysu hyn, cofiwch fod rhaglenni newyddion â'u hagendâu eu hunain hefyd. Felly, cyn i chi gael eich llyncu gan eitemau etholiadol, treuliwch beth amser yn ystyried y materion sy'n bwysig i chi. Pa un a ydyn nhw'n cyrraedd y tudalennau blaen a'r bwletinâu newyddion ai peidio, ceisiwch ddarganfod beth mae'r prif bleidiau'n ei ddweud am y pethau hynny; darllenwch beth mae eich ymgeiswyr lleol yn ei ddweud amdany'n nhw, a pheidiwch â bod ofn holi canfaswyr carreg y drws ac ymgyrchwyr eraill am y pethau sy'n bwysig i chi.



©2017 - Industrial Christian Fellowship, PO Box 414, HORLEY, RH6 8WL

Cyfieithiad Cymraeg gan Cytûn—Eglwysi Ynghyd yng Nghymru,
58 Heol Richmond, Caerdydd CF24 3AT.